

Annwyl drwyddedai

Gwrthodiadau a Dirymiadau Cofrestr Genedlaethol o Drwyddedau Tacsis

Ysgrifennaf atoch i'ch gwneud yn ymwybodol o fenter newydd y mae Sir Ddinbych yn ymwneud â hi i helpu i gryfhau trwyddedu cerbydau hacni / cerbydau hurio preifat er budd teithwyr a gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat cyfrifol.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL), y corff sy'n cynrychioli cyngorau lleol, wedi comisiynu Gwrthodiadau a Dirymiadau Cofrestr Genedlaethol o Drwyddedau Tacsis (NR3). Bydd y gofrestr yn cael ei chynnal gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol.

Bwriad hwn yw atal gyrwyr sydd wedi cael trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat wedi'i ddirymu, neu gais am drwydded wedi'i wrthod, rhag mynd i awdurdod arall i gael trwydded yn anonest, drwy fethu â datgelu eu hanes trwyddedu blaenorol.

Mae esiamplau o yrwyr yn gwneud hyn yn y gorffennol wedi tanseilio hyder y cyhoedd yn y fasnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, ac awdurdodau trwyddedu. Pwrpas y fenter NR3 felly yw darparu dull i awdurdodau trwyddedu rannu manylion unigolion sydd â thrwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat wedi'i dirymu, neu gais am drwydded o'r fath wedi'i gwrthod. Mae datblygiad NR3 wedi'i groesawu gan bob adran o'r fasnach tacsis, grwpiau diogelwch ac elusennau, yr Adran Drafnidiaeth a gan awdurdodau trwyddedu.

O 1 Chwefror, bydd yr awdurdod hwn yn dechrau defnyddio'r NR3. Mae hyn yn golygu, o'r adeg honno:

- Bydd ceisiadau am drwyddedau cerbydau hacni/cerbydau hurio preifat newydd yn cael eu gwirio ar yr NR3.
- Lle bydd trwydded bresennol yn cael ei dirymu neu y gwrthodir cais am adnewyddiad neu drwydded newydd, caiff hyn ei gofnodi ar NR3.

Bydd yr wybodaeth a gofnodir ar NR3 yn cael ei chyfyngu i'ch:

- Enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru
- penderfyniad a gymerwyd
- dyddiad y penderfyniad
- y dyddiad yr oedd y penderfyniad yn weithredol

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar NR3 am 25 mlynedd.

Lle amlygir manylion yr ymgeisydd ar NR3 yn ystod chwiliad, fe eir ar drywydd hyn ar wahân rhwng yr awdurdodau. Bydd unrhyw gais o'r fath mewn perthynas â'ch cofnod yn cael ymateb yn unol â pholisi cyhoeddi'r awdurdod ar [manyion/dolen gyswllt]. Bydd yn dal yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu ystyried bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun, ond bydd cyflwyno NR3 yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu gwneud hynny ar sail yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i gais.

Bydd yr holl brosesu a rhannu data a wneir gan yr awdurdod hwn ar yr NR3, a gydag awdurdodau unigol o ran cofnodion ar yr NR3, yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (DDD) a'r

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Y sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth hon yw ei bod yn hanfodol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth weithredu awdurdod swyddogol a roddir i'r awdurdod trwyddedu – hynny yw, asesu a yw'r unigolyn yn gymwys ac addas i ddal trwydded hacni neu gerbyd hurio preifat. Ni fwriedir trosglwyddo unrhyw ddata NR3 allan o'r Deyrnas Unedig.

Os ydych yn dymuno codi unrhyw fater yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth diogelu data, yn cynnwys dibynnu ar unrhyw un o'r hawliau a roddir i wrthrychau data o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, gallwch wneud hynny i Swyddog Diogelu Data'r awdurdod ar gwybodaeth@sirddinbych.gov.uk / Swyddog Mynediad at Wybodaeth, Tîm Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.

Mae gennych hawl bob amser i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yn ddiffuant

Awdurdod Trwyddedu

Cwestiynau cyffredin

Pam sefydlwyd y gofrestr?

Mae NR3 wedi'i datblygu i wella diogelwch a hyder y cyhoedd mewn trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Cafwyd sawl achos proffil uchel lle'r oedd trwyddedau gyrywyr wedi'u gwrthod neu eu dirymu mewn un ardal, wedi mynd i ardal arall a chael trwydded yn yr ardal honno, gan fethu â datgelu eu hanes blaenorol. Mae hyn yn tanseilio diogelwch y cyhoedd, os oes rhesymau cyfreithlon pam y gwrthodwyd neu y dirymwyd trwydded, ac yn niweidio hyder yn y drefn a'r fasnach trwyddedu cerbydau hacni / cerbydau hurio preifat. Dyma pam bod y fenter wedi cael cefnogaeth eang gan yrwyr a chwmnïau ag enw da, gan y bydd yn darparu dull i sicrhau bod gwybodaeth am wrthodiadau a dirymiadau'n gallu cael ei rhannu rhwng bob awdurdod trwyddedu mewn dull diogel a saff, gan gael gwared ar y man gwan posibl hwn.

Sut bydd y gofrestr yn gweithio - pa wybodaeth a fydd yn cael ei chofnodi?

Pan mae awdurdod yn dirymu trwydded, neu'n gwrthod cais am drwydded, bydd yn cofnodi'r wybodaeth hon ar NR3. Bydd yr wybodaeth a gofnodir yn cael ei chyfyngu i:

- Enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru
- penderfyniad a gymerwyd
- dyddiad y penderfyniad
- y dyddiad yr oedd y penderfyniad yn weithredol

Bydd yr awdurdodau trwyddedu yna'n chwilio drwy'r gofrestr pan fyddant yn prosesu ceisiadau newydd neu adnewyddiadau. Pan fydd awdurdod yn cael hyd i fanylion sy'n cyfateb â'u hymgeisydd ar NR3, bydd yn cysylltu â'r awdurdod trwyddedu a gofnododd y manylion i gael rhagor o wybodaeth, a fydd yna'n cael ei defnyddio, os caiff ei rhannu, i helpu er mwyn gwneud penderfyniad ar y cais.

A wrthodir trwydded i mi'n awtomatig os ydw i ar y gofrestr?

Na. Mae gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau trwyddedu ystyried bob cais am drwydded yn ôl ei rinweddau ei hun, ac ni all wrthod cais dim ond oherwydd bod yr ymgeisydd wedi'i gofnodi ar NR3.

Pwrpas yr NR3 yw sicrhau bod awdurdodau â'r wybodaeth lawn hanfodol i'w helpu i wneud penderfyniad ynghylch a yw unigolyn yn gymwys ac addas. Os yw amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers cofnodi'r penderfyniad ar NR3, gall fod yn addas i awdurdod arall ddyfarnu trwydded.

Beth os gwaherddir fy nhrwydded?

Ni fydd gwahardd trwyddedau'n cael ei gofnodi ar NR3. Mae hyn oherwydd y dylid defnyddio gwaharddiad naill ai fel cosb tymor byr neu i oresgyn sefyllfa tymor byr (e.e. materion gyrru neu feddygol). Pan nad ystyrir gyrrwr yn unigolyn cymwys ac addas mwyach i ddal trwydded, dylid dirymu'r drwydded.

A allaf ddarganfod os yw fy manylion ar yr NR3?

Bydd unigolion yr ychwanegir eu manylion at NR3 yn cael gwybod am hyn ar yr adeg y byddant yn cael gwybod am y penderfyniad i wrthod neu ddirymu trwydded. Y tu allan i'r adegau hyn, gall unigolyn wneud cais am fynediad at ddata gan y testun (SAR) ar gyfer unrhyw ddata personol amdanynt a gedwir ar NR3. Y 'rheolydd data' o ran y data hwn yw'r awdurdod trwyddedu, y dylid cyflwyno SAR iddynt yn y lle cyntaf. Fel y 'prosesydd data', sef y sefydliad sy'n storio'r data, bydd y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn cyflawni'r cais hwn. Yn yr un modd, dylid gweithredu unrhyw hawliau eraill o dan y ddeddfwriaeth diogelu data i'r awdurdod hwn yn y lle cyntaf.

Am ba mor hir y cedwir manylion ar NR3?

Bydd data'n cael ei gadw ar y gofrestr i helpu awdurdodau trwyddedu gyflawni eu dyletswydd statudol i fod yn fodlon fod unigolyn yn gymwys ac addas i ddal trwydded tacsï neu gerbyd hurio preifat. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi o dan adrannau 51, 59 a 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adrannau 13, 16 ac 17 Deddf Cerbydau Hurio Preifat (Llundain) 1998; adran 3 Rheoliadau Cerbydau Hurio Preifat (Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat Llundain) 2003; adrannau 25 a 30 o Orchymyn Tacsï Llundain 1934; adrannau 9 ac 19 Deddf Cyngor Dinas Plymouth 1975 ac adran 46 Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847. Yn unol â'r diben hwn, bydd data'n aros ar NR3 am 25 mlynedd.